**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDDC@senedd.cymru

6 Medi 2023

Annwyl Huw

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr 9 Awst atoch chi. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol i osod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi ayb.)2023 drafft mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yn: https://senedd.cymru/media/qyzkwe43/ws-ld16013-w.pdf.

Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Gallai rhai agweddau o'r Rheoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer ein pwerau ein hunain. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn i Ogledd Iwerddon, Lloegr, yr Alban a Chymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 4 Medi 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol yn hygyrch mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**